PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 7 CHWEFROR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Howells, Lay a/ac Graham Thomas |

53 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd DilwarAli.

54 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

55 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2021 yn gofnod cywir.

56 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cafodd Aelodau wybod bod yr adroddiad hwn wedi’i baratoi i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru o dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Darparwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Roedd yr aelodau'n falch o weld y cynnydd ar y troshaen dad-garboneiddio a'r ecwiti gweithredol cynaliadwy.

PENDERFYNWYD nodi'r datblygiadau diweddar yn berthnasol i gronfa fuddsoddi’r PPC.

57 : Y GOFRESTR RISGIAU

Cynghorwyd yr aelodau bod yr eitem hon yn eu galluogi i adolygu'r Gofrestr Risgiau presennol ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Darparwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Roedd yr aelodau'n falch bod y Bwrdd Pensiynau Lleol yn mynd i fod yn edrych ar Seiberddiogelwch ac Adnodd Y Tîm Pensiynau yn fanwl gan fod yr eitemau hyn yn bwysig ac amserol.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Gofrestr Risgiau.

58 : ADOLYGU DATGANIAD CYDYMFFURFIAETH LLYWODRAETHU

Hysbyswyd yr aelodau bod yr eitem hon wedi eu galluogi i gwblhau'r adolygiad o'r Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Darparwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Yn ôl yr aelodau roedd hi'n gwneud synnwyr diweddaru hyn a'i gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru sydd wedi bod yn datblygu eu Llywodraethiant dros y blynyddoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu a atodir fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

59 : ADOLYGU POLISÏAU CYFATHREBU A CHWYNION

Hysbyswyd yr aelodau bod yr eitem hon wedi eu galluogi i gwblhau'r adolygiad o'r Polisïau Cyfathrebu a Chwynion ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Darparwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr aelodau a yw'r tîm yn derbyn nifer sylweddol o gwynion a chanmoliadau. Dywedodd swyddogion mai anaml y byddan nhw'n derbyn cwynion, os ydyn nhw, byddant wedyn yn ei ddefnyddio fel cyfle hyfforddi a datblygu i wella. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn derbyn canmoliaeth yn rheolaidd am staff sy'n mynd y tu hwnt i’w dyletswyddau i helpu pobl ar yr hyn sy'n gallu bod yn gyfnod llawn straen. Dethlir canmoliaeth a'u rhannu â’i rhannu â’r tîm.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Cyfathrebu a'r Polisi Cwynion sydd wedi'i ddiweddaru.

60 : COFNODION Y BWRDD PENSIWN LLEOL

Nodwyd.

61 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd.

62 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

63 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.28 pm